TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 27 Awst 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'n Polisi Mynediad at Wybodaeth.

## Atebion i'ch Cwestiynau

1. Darparu: Polisi ysgrifenedig TrC ar gyfer delio â chwynion trigolion sy'n ymwneud ag adeiladu'r Metro

   Nid oes gan TrC bolisi ysgrifenedig penodol ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud ag adeiladu'r Metro. Yn lle hynny, mae cwynion sy'n ymwneud ag adeiladu'r Metro yn cael eu cofnodi o dan ein trefn delio â chwynion, sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR). Mae'r drefn hon yn berthnasol i TrC drwyddo draw, ac mae ar gael yma.

2. Darparu: Polisi ysgrifenedig TrC ar gyfer rhoi gwybod i drigolion am waith sy'n cael ei wneud yn eu hardal leol a allai achosi sŵn neu fath arall o amharu

   Mae ein llyfryn sy'n amlinellu ein hymrwymiadau i roi gwybod i drigolion am y gwaith sy'n cael ei wneud yn eu hardal ar gael yma ar dudalen 19 ('Ein Hymrwymiad i Chi'). Nid oes gan TrC bolisi penodol mewn perthynas â rhoi gwybod i drigolion am waith sy'n cael ei wneud, ond yn lle hynny mae ganddo ddogfen fframwaith fewnol, sy'n cyfateb i bolisi ysgrifenedig: Fframwaith Cysylltiadau Cymunedol a Chyswllt Llinellau Craidd y Cymoedd. Nid oes bwriad i gyhoeddi'r ddogfen fframwaith hon, ac mae'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth sensitif. O'r herwydd, dim ond darn o'r adran berthnasol fel a ganlyn gallwn ni ei ddarparu:

   "Adran 11 - HYSBYSIAD YMLAEN LLAW O WAITH
   Mae'r ymchwil a gynhaliwyd yn awgrymu bod cymdogion sy'n byw yng nghyffiniau'r rheilffordd yn disgwyl gohebiaeth benodol wedi'i thargedu a'u bod eisiau gwybod (yn ysgrifenedig) am waith peirianyddol. Mae post uniongyrchol hefyd yn gyfle gwych i fod yn berchen ar negeseuon cadarnhaol a'u cyfleu, gan danlinellu manteision ehangach ein gwaith a darparu pwynt cyswllt priodol.

   [...] Byddwn yn ceisio cyhoeddi llythyrau/post uniongyrchol i roi gwybodaeth ymlaen llaw sy'n ategu ein gwaith cyfathrebu ehangach:

   - ar gamau allweddol yn ystod y prosiect trawsnewid hy wrth ddechrau gweithio ar lwybr
   - wrth sefydlu neu ddatgymalu safleoedd gwaith/Raps/compowndiau allweddol
   - wrth ymgymryd â chyfnodau hir o waith arbennig o aflonyddgar neu swnllyd
   - pan fydd asesiad effaith perthnasol yn ystyried bod post uniongyrchol yn hanfodol.

   Dangosodd yr ymchwil fod hanner y cymdogion agosaf wedi gofyn am fwy nag wythnos o rybudd am waith a fyddai'n amharu arnynt – ac o'r herwydd mae TrC wedi gosod hyn fel gofyniad sylfaenol bob tro bydd post uniongyrchol yn cael ei gynllunio.

Cyn amled â phosibl bydd TrC yn rheoli post uniongyrchol drwy ei dîm rhanddeiliaid a chymuned, yn hytrach na'r asiantau lleol/partneriaid cyflenwi sy'n rheoli'r broses hon yn uniongyrchol. Diben hyn yw sicrhau cysondeb o ran tôn, gwybodaeth a negeseuon. Bydd TrC yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu proses i sicrhau bod

hyn yn cael ei reoli'n effeithio, a phan bennir bod post uniongyrchol yn briodol/angenrheidiol, bydd TrC yn gofyn am 4 wythnos o rybudd, os nad yw'r amserlen o waith sy'n amharu ar gyfer pob safle/banc gwaith eisoes wedi cael ei rhoi.

Er y bydd post uniongyrchol yn parhau i fod yn sianel allweddol ar gyfer rhoi gwybod i gymdogion am waith yn y dyfodol, mae'r ymchwil yn awgrymu y gallem elwa o fabwysiadu dull cydlynol, aml-sianel - roedd posteri mewn gorsafoedd/ar drenau, negeseuon e-bost a chyfryngau cymdeithasol i gyd wedi cael sgôr uchel gan deithwyr - i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob cynulleidfa'n effeithiol. [O'r herwydd] byddwn hefyd yn datblygu ac yn defnyddio nifer o sianeli a mecanweithiau ymgysylltu eraill."

* * *

Yn ychwanegol at y fframwaith hwn, mae TrC yn defnyddio'r ddau dempled canlynol i ynysu a chyfleu'n glir i'n timau prosiect beth yn union sydd ei angen arnynt i gyflawni ein hymrwymiadau rhaghysbysu.

**(Parhau dros y ddalen)**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Rhaghysbysu – Beth mae angen i chi ei wneud

Return completed template to


engagement@tfw.wales

Team then translate and issue via Royal Mail

WIYA (Work In Your Area Tracker)

(For support [redacted]

https://workinyourarea.trc.cymru/login




Does the work meet one or more of these criteria:

- More than 1 night
- Built up location
- Noisy/Disruptive

Contact engagement@tfw.wales for letter template & fill in blanks

No less than 3 weeks prior to works commencing, return to team for issuing (no hand delivery required).


Less than 3 weeks? Contact engagement@tfw.wales for advice (hand delivery maybe required)

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

2. Rhaghysbysu: Ein Proses yn Llawn (gwybodaeth bersonol wedi'i golygu)

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Pre-notification of works process**




## Meini Prawf

A yw'r gwaith yn bodloni **un neu ragor** o'r meini prawf hyn?

- Mwy nag 1 noson
- Lleoliad adeiledig
- Swnllyd/Tarfu

Cysylltu â engagement@tfw.wales i gael templed llythyr a llenwi'r bylchau gwag

## Traciwr Gwaith yn eich Ardal Chi

TrC - Gwaith yn eich Ardal Chi (trc.cymru)

Rhaid llwytho **pob gwaith** i fyny ar y Traciwr Gwaith yn eich Ardal Chi

Rydym yn argymell y canlynol:

- **Pa mor aml: yn ôl yr angen**
- **Cyfrifoldeb**: Rydym yn argymell bod unigolyn o bob tîm yn cael y cyfrifoldeb hwn

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â [redacted]

Tîm

# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Rhaghysbysu – ein proses yn llawn**

Os ydych chi angen eich rhaghysbysu am waith, llenwch y ffurflen isod gan roi cynifer o fanylion â phosibl a dychwelwch y ffurflen i engagement@tfw.wales o leiaf **3 wythnos cyn** i'r gwaith ddechrau. **Llai na 3 wythnos**? Cysylltwch â engagement@tfw.wales i gael cyngor (efallai bydd angen danfon â llaw) **Mae llythyr neu Gylchlythyr yn gallu cymryd hyd at 6 wythnos i'w dosbarthu i randdeiliaid.*

**Enw:** Cliciwch neu dapio yma i roi testun.

**E-bost:** Cliciwch neu dapio yma i roi testun.

**Sefydliad:** ☐ Trafnidiaeth Cymru ☐ Balfour Beatty ☐ Siemens ☐ Alun Griffiths ☐ Amey ☐ Arall:

---

**Math o waith a lleoliad bras (ee Rheoli llystyfiant Llinell Coryton/Gosod seilbyst Aberdâr):** Cliciwch neu dapio yma i roi testun.

**Dyddiad y gwaith:** O Cliciwch neu dapio i roi dyddiad. Tan Cliciwch neu dapio i roi dyddiad.

**Lleoliad y gwaith (Milltiroedd a Chadwyni):** O Cliciwch neu dapio yma i roi testun. I Cliciwch neu dapio yma i roi testun.

**Ydy'r gwaith hwn yn tarfu / yn swnllyd?** ☐ Ydy ☐ Nac ydy

**Pryd bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud?** ☐ Yn ystod y dydd ☐ Yn ystod y nos ☐ Y naill a'r llall

**Dros sawl diwrnod/wythnos bydd y gwaith hwn yn digwydd?** Cliciwch neu dapio yma i roi testun.

**Amcan o nifer y bobl a fydd ar y safle**

**Pa offer fydd yn cael ei ddefnyddio?** Cliciwch neu dapio yma i roi testun.

Rhowch ddisgrifiad byr o'r gwaith, gan gynnwys unrhyw beth rydych chi'n meddwl y gallai fod cymdogion sy'n agos at y rheilffordd fod eisiau ei ddeall

| |
|---|
| Cliciwch neu dapio yma i roi testun. |

3. Darparu: Polisi ysgrifenedig TrC ar gyfer lliniaru'r tarfu ar drigolion sy'n deillio o adeiladu'r Metro

Rydym yn gofyn yn gwrtais am eglurhad ynghylch y cwestiwn hwn. Nid oes gan TrC bolisi penodol i liniaru'r tarfu cyffredinol, oherwydd gall y term 'tarfu' gynnwys sbectrwm eang o faterion. Nodwch yr union darfu rydych chi'n cyfeirio ato (er enghraifft: tarfu ar deithwyr o ganlyniad i gau gorsaf/llinell/ffordd, tarfu ar y gymuned leol o ganlyniad i lanast a baw a achosir gan waith adeiladu parhaus, tarfu ar gymdogion wrth ymyl y rheilffordd o ganlyniad i olau yn ystod y nos a llygredd sŵn.) Er gwybodaeth, bydd y cyfnod ymateb gofynnol o 20 diwrnod gwaith pan fydd yn rhaid i TrC ddychwelyd yr wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani yn cael ei ailosod i sero ar ôl cael yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen.

4. Darparu: Polisi ysgrifenedig TrC ar gyfer lliniaru'r effaith amgylcheddol sy'n deillio o adeiladu'r Metro

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw ar ein rhan gan ein partneriaid seilwaith Amey Infrastructure Wales (AiW). Rydym wrthi'n cael yr wybodaeth hon ar hyn o bryd, ond nid yw ar gael i'w datgelu ar hyn o bryd. Carwn ymddiheuro'n daer dros yr oedi hwn, sydd wedi codi o ganlyniad i absenoldeb staff dros wyliau'r haf. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y cynnydd a wneir o ran cael yr wybodaeth hon ac yn ceisio ei darparu cyn gynted ag y bo modd.

5. Asesiadau o'r effaith amgylcheddol a gynhaliwyd mewn perthynas ag adeiladu'r Metro

Ar ôl penodi KeolisAmey *(a oedd yn arfer gweithredu masnachfraint Cymru a'r Gororau, gan weithredu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC tan fis Chwefror 2021)* i wneud gwaith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn 2018, cynhaliwyd proses sgrinio gyda'r awdurdodau lleol perthnasol (Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chyngor Sir Bro Morgannwg) i benderfynu a oedd angen Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Daeth y pum Awdurdod Lleol i'r casgliad bod y gwaith yn dod o dan Atodlen 2 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 ac nad oedd y gwaith yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, felly nid oedd angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol llawn.

Ynghlwm wrth yr e-bost hwn mae'r pum Barn Sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a gafodd TrC gan yr Awdurdodau Lleol perthnasol (Atodiadau 1-5; mae gwybodaeth bersonol wedi cael ei golygu).

Fel rhan o broses sgrinio'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, comisiynodd TrC Mott McDonald hefyd i gwblhau Asesiad o'r Effaith Ecolegol ar gyfer holl rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd (gweler Atodiad 6 (mae gwybodaeth bersonol wedi'i golygu)); tra bod AIW hefyd wedi comisiynu Rheoli'r Ddaear i gwblhau Arolwg Ecoleg Bwrdd Gwaith (Atodiad 7 – (mae gwybodaeth bersonol wedi'i golygu)).

O dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cadernid ecosystemau. Mae ymrwymiad TrC i gyflawni'r ddyletswydd hon wedi'i amlinellu yn ein [Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth]; a dangosir ein hystyriaeth o rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig gan yr asesiadau manwl, yr iawndal, y mesurau lliniaru a gwella rydym yn eu gwneud/argymell yn ein hadroddiadau arolwg. Cyn unrhyw waith, bydd yr adroddiadau canlynol ar yr adrannau o'r llwybr yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi:

- Adroddiadau arolwg ystlumod ar gyfer pontydd a choed
- Adroddiad Moch Daear
- Adroddiad Dyfrgwn
- Adrodd Pathew
- Adroddiad Madfallod Dŵr Cribog
- Adroddiad Draenogod (ar sail bob achos unigol yn ôl cofnodion ecolegol)

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Yna, defnyddir yr wybodaeth a ddychwelir gan bob adroddiad arolygu fel sail i'n datganiad dull rhagofalus ar gyfer clirio llystyfiant a chyflwyniadau diogelwch, a byddwn yn sicrhau bod ecolegwyr yn bresennol ar y safle tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod dull addas yn cael ei ddefnyddio i osgoi mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth cadwraeth natur a roddir i anifeiliaid/rhywogaethau penodol a dim gwaith tynnu llystyfiant, oni bai fod hynny'n hollbwysig i ddiogelwch (oherwydd bod llystyfiant yn taro trenau neu'n cuddio signalau), heb ymgynghori ymlaen llaw â'r Prif Ecolegydd (ac unrhyw gynrychiolwyr sydd â chymwysterau addas).

6. Darparu: Cydsyniad ymlaen llaw o dan a61 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 am darfu sŵn o ganlyniad i adeiladu'r Metro (gan gynnwys amodau ar gyfer cydsyniad a rhwymedigaethau cysylltiedig ar TrC) gan yr holl awdurdodau lleol perthnasol.

   Ar hyn o bryd, mae TrC wedi cael caniatâd ymlaen llaw o dan a61 i gynnwys pedair wythnos o osod seilbyst. Rydym wrthi'n cael yr wybodaeth hon ar hyn o bryd, ond nid yw ar gael i'w datgelu ar hyn o bryd. Unwaith eto, carwn ymddiheuro'n daer dros yr oedi hwn, sydd wedi codi o ganlyniad i absenoldeb staff dros wyliau'r haf. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y cynnydd a wneir o ran cael yr wybodaeth hon ac yn ceisio ei darparu cyn gynted ag y bo modd.

Rydym eisiau eich sicrhau bod tryloywder yn un o werthoedd craidd TrC, ac rydym yn cydnabod faint o ddiddordeb sydd gan y cyhoedd yn natblygiad y Metro. Rydym yn credu bod bod yn agored ac yn dryloyw yn cryfhau ein perthynas â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, ac mae'n allweddol i ysbrydoli a chynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein sefydliad. Hoffwn eich sicrhau bod staff yn gweithio'n galed i gyhoeddi gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi, ac rydym yn diolch i chi am eich amynedd a'ch dealltwriaeth.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".